

Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol HSS –06-01 (min)

COFNODION

Dyddiad: Dydd Mercher, 28 Mawrth 2001

Amser: 2.00 tan 4.40 pm

Lleoliad: Ystafell Cynhadledd Fideo Telathrebu Prydeinig, 2il Lawr, Arena Rhyngwladol Caerdydd,
Sefydliad ar gyfer Iechyd Cefn Gwlad, Gregynog
Prifysgol Cymru, Abertawe

Presennol: Aelodau o'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Kirsty Williams (Cadeirydd)	Brycheiniog a Sir Faesyfed
Brian Gibbons	Aberafan
Brian Hancock	Islwyn
Jane Hutt (Gweinidog)	Bro Morgannwg
Ann Jones	Dyffryn Clwyd
Dai Lloyd	Gorllewin De Cymru
David Melding	Canol De Cymru
Lynne Neagle	Tor-faen
Yn Bresennol	
Dr Hywel Lloyd	Ymarferydd Cyffredinol, Practis Arwystli
Jayne Morgan	Rheolwr Project, Project SCIPiCT
Swyddogion	
Dr Ruth Hall	Prif Swyddog Meddygol
Ann Lloyd Cyfarwyddwr	NHS Cymru
John Morgan	Is-adran Gwasanaethau Iechyd
Ysgrifenyddiaeth:	
Jane Westlake	Clerc y Pwyllgor
Claire Morris	Dirprwy Glerc y Pwyllgor

Eitem 1: Ymddiheuriadau ac Amnewidiadau

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriad gan Geraint Davies. Ni chafwyd unrhyw amnewidiadau.

1.2 Atgoffwyd yr aelodau o'r gofyniad, o dan Reol Sefydlog 4.5, i ddatgan unrhyw fuddiannau cyn cymryd rhan yn y gweithrediadau. Gwnaed y datganiadau canlynol:

Brian Hancock, ymgynghorydd hunan-gyflogedig iechyd, diogelwch a'r amgylchedd,

Ymarferydd Diogelwch Cofrestredig (RSP) ac yn briod â bydwaig gymunedol;

Dai Lloyd, Ymarferydd Cyffredinol ac aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe;

1.3 Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod o Gregynog a chroesawodd yr aelodau i bwyllgor cyntaf y Cynulliad a oedd yn cyfarfod drwy gyfrwng cyswllt cynhadledd fideo tair ffordd.

Eitem 2: Anerchiad Agoriadol gan Andrew Davies, Y Trefnydd

2.1 Diolchodd Andrew Davies i'r Cadeirydd am y cyfle i annerch y cyfarfod. Dywedodd mai ei rôl fel e-Weinidog Cymru oedd cydlynu, gan weithio gyda'i gyd-aelodau yn y cabinet er mwyn cael trosolwg o'r modd y defnyddir technoleg gwybodaeth (TG) i gyflwyno gwasanaethau a sicrhau bod y defnydd gorau yn cael ei wneud o'r cyfleoedd a ddarperir gan dechnolegau newydd. Roedd y Cynulliad yn cynnig cyfle i fabwysiadu ymagwedd gydlynus at TG, ac roedd yn bwysig bod polisiâu'r Cynulliad yn adlewyrchu hyn. Dylid ystyried buddsoddiad cynaliadwy mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) fel blaenoriaeth bwysig.

2.2 Sefydlwyd grŵp ymgynghorol er mwyn datblygu Fframwaith Oes Wybodaeth Strategol. Crëwyd gweithgor hefyd i edrych ar fuddsoddi yn y sector cyhoeddus, a byddai'n ymchwilio i'r mater o arbed costau pe byddai'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn gweithredu fel prynwr unigol.

2.3 Roedd cyfleoedd i ddefnyddio cyfrifiaduron personol yng Nghymru yn isel o'i gymharu â rhannau eraill o'r DU. Roedd y grŵp yn edrych ar wella'r mynediad at ddarpariaeth drwy gyfleusterau cymunedol, h.y llyfrgelloedd a chanolfannau cymunedol. Gallai hefyd fod yn bosibl i wella mynediad drwy ddefnyddio technoleg symudol â llaw a theledu digidol.

2.4 Roedd gan yr NHS yng Nghymru record dda o fanteisio i'r eithaf ar TGCh a byddai cyfleoedd pellach ar gael drwy'r project ymfudiad, sef Protocol y Rhyngryd – y Rhwydwaith Rithwir Breifat (IP/VPN), cysylltedd Ymarferwyr Cyffredinol a'r rhaglen datblygu telefeddygaeth. Y Trefnydd oedd Llywydd y Rhwydwaith Teleranbarthau Ewropeaidd, a fyddai'n hwyluso'r broses o rannu gwybodaeth ac arbenigedd gyda llywodraethau Ewropeaidd eraill.

Eitem 3: Telefeddygaeth

Papur: HSS-06-01(p.1)

3.1 Dywedodd y Gweinidog ar gyfer Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ei bod yn bosibl i ddefnyddio technoleg mewn ystod eang o leoliadau a byddai cynnal cyfarfod o'r pwyllgor drwy gyfrwng cyswllt fideo yn helpu i ddangos y potensial. Byddai datblygu technoleg yn allweddol i gynlluniau'r Cynulliad i wella iechyd a moderneiddio'r NHS yng Nghymru. Roedd yr NHS yng Nghymru wedi cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu telefeddygaeth ers 1994 ac roedd ganddo gryn arbenigedd yn y maes. Yr her allweddol bellach fyddai datblygu cysylltiadau â'r maes gofal cymdeithasol.

3.2 Roedd y Rhaglen Datblygu Telefyddogaeth dwy flynedd wedi ei lansio a gofynnwyd am argymhellion gan sefydliadau NHS a'u partneriaid i wneud ceisiadau am gymorthdal grant er mwyn cynorthwyo'r broses o ddatblygu cynlluniau peilot ar raddfa weithredol ym maes gwasanaethau dermatoleg a mân anafiadau. Darparwyd arian yn ogystal er mwyn sefydlu'r rhwydwaith cynadleddau fideo iechyd.

3.3 I grynhoi, dywedodd y Trefnydd bod telefeddygaeth a thelegofal yn ymwneud yn bennaf â chydlynu gwasanaethau er mwyn gwireddu potensial llawn technoleg.

3.4 Rhoddodd John Morgan gyflwyniad ar waith Ymddiriedolaeth NHS Cernyw sy'n defnyddio telefeddygaeth i gynnal uned mân anafiadau a arweinir gan nyrsys. Atodir copi o'i gyflwyniad yn Atodiad 1.

3.5 Rhoddodd Jayne Morgan a Dr Hywel Lloyd gyflwyniad ar Rannu Gwybodaeth Glinigol yn y Tîm Gofal Cynradd (SCIPiCT). Atodir copi o'u cyflwyniad yn Atodiad 2.

3.6 Mewn ymateb i gwestiynau gan yr aelodau, gwnaed y pwyntiau canlynol gan Jayne Morgan a Dr Lloyd:

- Ystyriai project SCIPiCT mai cyfrinachedd cleifion oedd y flaenoriaeth uchaf ac roedd eu meddalwedd wedi eu sefydlu yn y fath fodd fel nad oedd mynediad heb awdurdod i wybodaeth sensitif ar gael.
- Teimlai nifer o gleifion bod ganddynt fwy o gyfrinachedd drwy gael gweithwyr iechyd proffesiynol yn galw yn eu cartrefi eu hunain.
- Roedd y meddalwedd llif gwaith wedi galluogi gweithwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd i drefnu a blaenoriaethu eu gwaith yn fwy effeithiol, yn arbennig yn ystod amserau prysurach y dydd.
- Nid oedd unrhyw aelodau proffesiynol yn bresennol pan gynhaliwyd cyfarfod cyntaf y grë p cyswllt cleifion. Roedd gan y grë p amgyffrediad o'r materion allweddol gan bod cleifion wedi arfer defnyddio technoleg yn eu bywyd beunyddiol.

3.7 Gwnaed y pwyntiau canlynol gan Jane Morgan:

- Yn ei farn, yr Ymgynghorydd Damweiniau ac Achosion Brys oedd â'r cyfrifoldeb dros fân anafiadau, ond byddai'n cadarnhau'r manylion gydag Ymddiriedolaeth NHS Cernyw ac yn darparu ymateb ysgrifenedig i'r aelodau.
- Pan yr oedd modd rhagweld penllanw mewn achosion cyfeirio, er enghraifft yn ystod eclips yr haul yn 1999, roedd Cernyw wedi trefnu cysylltiadau ag ymgynghorwyr yn Hammersmith a Belfast er mwyn lleihau'r pwysau.
- Byddai project sefydliad yr Ymarferwyr Cyffredinol yn darparu cyfrifiaduron i bob Ymarferwr Cyffredinol yng Nghymru a fyddent yn cael eu safoni er mwyn galluogi rhannu gwybodaeth. Byddai rhwydwaith electroneg hefyd yn cael ei roi yn ei le er mwyn sicrhau y gellid trosglwyddo gwybodaeth rhwng practisau a rhwng gofal cynradd ac uwchradd hefyd.
- Roedd project SCIPiCT wedi amlygu nad oedd cytundeb barn ymysg gweithwyr iechyd proffesiynol yn glî n â sut i ddiogelu cyfrinachedd.
- Roedd technoleg yn bwnc generig ac ni ddylid ei weld fel rhywbeth a oedd yn gyfyngedig i un project unigol neu faes o feddyginiaeth yn unig.

3.8 Dywedodd Dr Ruth Hall bod protocolau clinigol yn sylfaenol i lwyddiant unrhyw raglen weithredol, nid yn unig er mwyn sicrhau gofal o ansawdd da i gleifion ond hefyd er mwyn diogelu'r gweithwyr proffesiynol sy'n cyflwyno'r gwasanaeth. Ni chredai bod projectau megis SCIPiCT yn hybu cystadleuaeth rhwng gweithwyr proffesiynol, gan mai hanfod yr ymagwedd oedd rhannu. Ni fyddai'r project yn llwyddo oni fyddai hynny yn cael ei ddeall drwy brotocolau clinigol. Roedd technoleg a systemau o ansawdd uchel yn sylfaenol a dylid eu cynnwys ym manyleb y project. Byddai iechyd a diogelwch, h.y asesiadau yn y gorsafoedd gwaith, yn cael ei gysylltu â hyn hefyd. Dywedodd Dr Hall bod ei gwybodaeth o'r cynlluniau a gychwynwyd a'r cynlluniau peilot a gynhaliwyd yng Nghymru hyd yma yn ei harwain i gredu bod yr agweddau hyn wedi eu hymdrin â hwy ac y byddent yn elfennau allweddol unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol.

3.9 Cytunodd y Gweinidog ar gyfer Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyda'r aelodau ei fod yn bwysig iawn ystyried cynhwysiant cymdeithasol wrth gynnal cynlluniau peilot ar gyfer datblygiadau newydd. Roedd cynlluniau peilot ar gyfer y project retinopathi diabetig wedi eu cynnal yn Awdurdod Iechyd Bro Taf, ble roedd lefelau uchel o ddifreintedd, a defnyddiwyd technoleg er mwyn galluogi pobl i elwa ar y cynllun hwnnw.

Eitem 4: Datblygu Telefyddyaeth yng Nghymru

Papur: HSS-06-01(p.1)

4.1 Gwnaed y pwyntiau canlynol gan yr Aelodau wrth drafod datblygu telefeddygaeth ac opsiynau ar gyfer y dyfodol:

- Dylai'r defnydd o gynadleddau fideo gan y Cynulliad ddod yn arfer mwy cyffredin.
- Yr ymgynghori rhwng cleifion a meddygon oedd wrth wraidd darparu gwasanaethau. Pe bai newid sylweddol yn y broses waith yna byddai angen ymgynghori â phob gweithiwr proffesiynol ym maes gofal iechyd a chleifion.
- Mynegwyd pryder bod rhai o'r economïau iechyd yn helaeth iawn ac y byddai angen i glinigwyr deithio o amgylch yr ardal o hyd.
- Mynegwyd pryder hefyd nad oedd defnydd o'r dechnoleg newydd wedi cael ei asesu ar gyfer risg yn y broses ddeagnostig a'r oblygiadau o ddibynnu arni ar gyfnod amhriodol o'r driniaeth.
- Gellid defnyddio rhwydwaith Swyddfa'r Post i ddatblygu'r ddarpariaeth e-iechyd.
- Roedd angen meddalwedd gydnaws ar gyfer ysbytai a Ymarferwyr Cyffredinol yn ogystal â chaledwedd.

- Mynegwyd pryder na ddylai pobl ddifreintiedig dderbyn gwasanaeth iechyd eilradd gan nad oedd ganddynt gyfle i ddefnyddio'r dechnoleg angenrheidiol.
- Roedd yn bwysig nad oedd y gwaith ar gyfer datblygu Rhwydwaith Fideo Cymru yn cael ei ddyblygu.
- Dylid ystyried anghenion a barn pobl ifanc mewn unrhyw strategaeth yn y dyfodol.

4.2 Gwnaed y pwyntiau canlynol gan y Gweinidog:

- Roedd disgwyl i Ymddiriedolaethau'r NHS fuddsoddi 2% o'u cyllidebau ym maes TGCh.
- Cymeradwywyd y broses o reoleiddio ar gyfer cofnodion cleifion electroneg gan y Cynulliad.
- Byddai rôl gan y proffesiynau sy'n gysylltiedig â meddygaeth yn natblygiadau'r dyfodol, gan y byddai angen pledio eu hachos drwy'r gymuned er mwyn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol.

4.3 Dywedodd John Morgan:

- Na fyddai IP/VPN yn darparu'r ateb o ran mynediad o gartrefi ond bod cwmnïau telathrebu yn dechrau marchnata nifer o newidiadau i dechnoleg a thariffau.
- Y bu Aelodau o'r Is-adran Technoleg a Rheoli Gwybodaeth Iechyd yn rhan o weithgor y Swyddfa Gartref a fu'n edrych ar ddatblygu gwasanaethau cyfathrebu diwifrau ar gyfer y gwasanaethau brys a rhai gwasanaethau cymunedol.
- Bod atebion meddalwedd yn datrys y mater safoni yn y tymor byr ond yn yr hir dymor roedd angen symud at lwyfannau cyffredin a chaffaeliad systemau corfforaethol.

4.4 Ar yr amod ei fod yn ychwanegu'r pwyntiau canlynol, cymeradwyodd y Pwyllgor gynnwys amlinell Strategaeth Telefeddygaeth a Telegofal Cymru Gyfan:

- Roedd angen ymgynghori â'r holl weithwyr iechyd proffesiynol a chleifion.
- Edrych ar y modd y byddai'r Strategaeth yn ymdrin â safoni.
- Edrych ar yr agenda draws-bynciaol, sy'n ymwneud â chynhwysiant cymdeithasol a chydabod y dylai mynd i'r afael ag anghydraddoldebau cymdeithasol gael y brif flaenoriaeth.
- Addysg feddygol a iechyd a datblygiad proffesiynol parhaus.

4.5 I gloi, diolchodd y Cadeirydd i bawb a drefnodd y cyfarfod, yn arbennig BT, Barcud Derwen, Jayne Morgan a Dr Hywel Lloyd o dîm SCIPiCT, yr Adran Rheoli Gwybodaeth a Technoleg Iechyd, a'r Clerc a'r Dirprwy Glerc.

Gweithredu

- Byddai John Morgan yn darparu ymateb ysgrifenedig ar gyfrifoldeb clinigol.
- Gwybodaeth bellach i'w darparu ar werthuso project SCIPiCT.

Eitem 5: Cofnodion Cyfarfod 14 Mawrth 2001

Papur: HSS-05-01 (min)

5.1 Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod.

Eitem 6: Materion yn codi

6.1 Cadarnhaodd y Gweinidog bod cyfarfod o'r Grë p Ymgynghorol ar Strategaeth Iechyd Meddwl Oedolion wedi ei drefnu ar gyfer 12 Ebrill. Ni fu'n bosibl cael y grë p at ei gilydd cyn y dyddiad hwnnw.

6.2 Byddai gwybodaeth am effaith y trefniadau pwrcasu lleol ar y PPRS, ac amnewidiadau cyffredinol a therapiwtig yn cael ei ddarparu i'r aelodau fel mater o frys.

